Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3243A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham | 4 |
| Sefyllfa ariannol | 5 |
| Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | 9 |
| Cynllun lleihau carbon | 10 |

# Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r prosiect hwn i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gallai gwaith archwilio pellach fod yn ofynnol mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe helpodd y prosiect hwn ni hefyd i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle'r ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg mwy manwl. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Fe ganolbwyntiom ni ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cynllun lleihau carbon

4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn mynd rhagddo trwy gydol y flwyddyn. Fe gynhaliom ni weithdy gyda'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mawrth 2022 i gasglu eu safbwyntiau am y risgiau archwilio allweddol mewn perthynas â'r Cyngor ac i oleuo ein gwaith blaengynllunio.

# Sefyllfa ariannol

## Mae trefniadau'r Cyngor i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ar y cyfan. Ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau, a fydd yn brawf difrifol ar ei gydnerthedd ariannol

6 Rydym wedi bod yn adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys ystyried sefyllfa'r Cyngor o ran ei gronfeydd ariannol wrth gefn, cyflawni arbedion wedi'u cynllunio a pherfformiad yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.

7 Fe gyhoeddom ni offeryn data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022. Mae hwn yn cynnwys ystod o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Strategaeth ariannol

8 Canfu ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol fod y pandemig wedi effeithio ar allu'r Cyngor i benderfynu sut yr oedd yn mynd i gau'r bwlch sylweddol yn ei gyllideb yn y tymor canolig, ond ei fod yn dechrau datblygu cynlluniau i gau'r bwlch. Roedd ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn 2021 yn cynnwys cynnig ar gyfer gwella bod angen i'r Cyngor lunio a chyflawni'r cynlluniau hyn. Roedd hyn yn cynnwys adnabod y lefel o arbedion y gall eu cyflawni trwy ei raglen drawsnewid.

9 Mae ein gwaith diweddar wedi canfod bod y Cyngor wedi rhannu ei waith trawsnewid yn feysydd penodol, fel gweithio hybrid a digideiddio. Ond mae angen o hyd iddo adnabod yr arbedion tebygol a fydd yn deillio o'i raglen drawsnewid. Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn dal i fod â threfniadau cadarn i reoli a monitro ei gydnerthedd ariannol. Ond yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae ei sefyllfa ariannol yn her eithriadol.

10 Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf uchelgeisiol, ac mae ganddo rai prosiectau mawr yn yr arfaeth. Mae gofyniad cyllido cyfalaf y Cyngor wedi cynyddu'n gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf ac £868 miliwn ydyw ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ei gronfa gyffredinol a'i gyfrif refeniw tai. Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd ei ofyniad cyllido cyfalaf yn cynyddu'n sylweddol mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae ei lefel benthyca allanol yn dal i fod yn is na'i ofyniad cyllido cyfalaf. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro fel rhan o adroddiadau'r Cyngor ar gydnerthedd ariannol.

11 Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni'n golygu bod rhagolygon y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac ar gyfer 2023-24 yn dynodi sefyllfa sy'n fwy o her o lawer nag yr oedd yn ei rhagweld dim ond ychydig fisoedd yn ôl. Er gwaethaf setliadau ariannol mwy cadarnhaol yn ddiweddar, mae'r Cyngor yn rhagweld diffyg o £7.3 miliwn ar gyfer 2022-23. Mae hyn cyn ystyried unrhyw godiadau cyflog

posibl uwchlaw'r 3% sydd wedi'i gynnwys yn ei gyllideb ar hyn o bryd. O ystyried y niferoedd mawr o staff a gyflogir gan y Cyngor, byddai codiadau cyflog uwch yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor.

12 Mae'r Cyngor yn rhagweld yn awr mai oddeutu £53 miliwn fydd y bwlch yn ei gyllideb ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn gynnydd o £20 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa yr oedd yn ei rhagweld ym mis Gorffennaf. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i godiadau cyflog a chostau ynni uwch.

13 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch cyllid dros y tymor canolig. Ym mis Gorffennaf, roedd y Cyngor yn rhagweld bwlch o £91 miliwn dros y pedair blynedd nesaf, ond o ystyried y bwlch mwy ar gyfer 2023-24, mae hwn yn debygol o gynyddu yn awr. Hyd yma, mae strategaeth y Cyngor i'w helpu i ymdrin â'r bwlch yn ei gyllideb wedi cynnwys cyfuniad o arbedion effeithlonrwydd, cynlluniau creu incwm a chodiadau yn y Dreth Gyngor.

14 Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu'n llawn sut y bydd yn cau'r bwlch yn ei gyllideb dros y tymor byr a chanolig. O ystyried maint y bwlch yn y gyllideb a'r pwysau sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gwybod bod angen iddo ddwysau ei weithgareddau i gau'r bwlch. Mae angen i'w ddull gael ei siapio gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, er enghraifft trwy daro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ac anghenion hirdymor wrth bennu cynlluniau arbedion yn y dyfodol. Byddai hyn yn lleihau i'r eithaf y risg bod angen arbedion heb eu cynllunio.

15 Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn yr hydref. Bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn dal i ddibynnu ar ystod o dybiaethau. Bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn her arbennig i'r Cyngor yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol.

## Perfformiad yn erbyn y gyllideb

16 Fe wnaethom nodi'n flaenorol bod y Cyngor yn rheoli ei wariant o fewn y gyllideb ond bod angen gwaith pellach i reoli gorwariannau mewn rhai gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Fe wnaeth y Cyngor fantoli'r cyfrifon ar gyfer 2021-22. Eto, er ei fod wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb, fe barhaodd i brofi pwysau sylweddol mewn gwasanaethau addysg a phlant. Cafodd rhai o'r rhain eu gwrthbwyso gan grantiau ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd y flwyddyn.

17 Mae'r Cyngor yn parhau i brofi heriau mawr yn rhai o'i wasanaethau allweddol. Mae hyn yn cyfrannu at orwariant o £7.3 miliwn a ragwelir ar gyfer 2022-23. Mae'r gorwariant mwyaf yn ymwneud â gwasanaethau plant lle mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant o £8.9 miliwn. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i gost rhoi cymorth a lleoliadau preswyl i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r Cyngor wedi cryfhau trefniadau i ganfod ffyrdd o liniaru'r gorwariannau gyda mwy o ffocws ar reoli lleoliadau. Mae hefyd wedi nodi cronfeydd wrth gefn i helpu i gyllido trawsnewid mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adran Addysg yn rhagweld

gorwariant o £5.9 miliwn ar gyfer 2022-23. Yn rhannol, mae hyn i'w briodoli i orwariannau mewn cludiant rhwng y cartref a'r ysgol oherwydd costau ynni cynyddol a mwy o alw.

18 Mewn meysydd gwasanaeth eraill fel diwylliant a hamdden, nid yw lefelau incwm yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig eto. Mae costau ynni uwch yn cael effaith fawr ar sefyllfa ariannol y Cyngor hefyd. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddeall effaith y cap diweddar ar brisiau i fusnesau. Mae'r gorwariannau wedi cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan danwariannau a ragwelir mewn meysydd eraill, megis cyllido cyfalaf a defnyddio'r gyllideb sylfaenol wrth gefn ar gyfer COVID.

19 Mae'r Cyngor yn dal i fod â rhai cyllidebau wrth gefn. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o gydnerthedd a hyblygrwydd iddo er mwyn gallu rheoli pwysau nas rhagwelwyd. Fodd bynnag, mae eisoes wedi neilltuo dros £6 miliwn o'i gyllideb adferiad COVID sylfaenol o £10 miliwn. Mae'r Cyngor hefyd yn tybio y bydd yn tynnu £1.1 miliwn i lawr o'r gyllideb wrth gefn o £2.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau plant yn 2022-23. Mae defnyddio'r cyllidebau wrth gefn hyn yn barod o fewn y flwyddyn ariannol yn tanlinellu sefyllfa ariannol fwyfwy anodd y Cyngor.

20 Mae'r Cyngor yn tynhau ei reolaethau cyllidebol ar draws y sefydliad a gofynnwyd i adrannau gyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach yn ystod y flwyddyn. Mae uwch swyddogion yn tanlinellu'r angen i archwilio ffyrdd eraill o wrthbwyso pwysau ariannol y Cyngor, ond mae'r sefyllfa'n her eithriadol.

## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

21 Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1** isod, fe gynyddodd y Cyngor lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n sylweddol yn 2020-21 a 2021-22. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r cyllid grant ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos, ar ddiwedd 2020-21, bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy – mewn termau absoliwt ac fel canran o gost net gwasanaethau – yn uwch nag ar unrhyw adeg mewn pum mlynedd. Mae lefel uwch y cronfeydd wrth gefn wedi rhoi mwy o gydnerthedd i'r Cyngor. Mae wedi galluogi'r Cyngor i sefydlu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, er enghraifft i baratoi ar gyfer diwedd cronfa galedi Llywodraeth Cymru mewn ymateb i COVID.

**Arddangosyn 1: swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021-22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu[1].

| | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost net gwasanaethau mewn £ miliynau[2] | 657.1 | 667.4 | 692.4 | 712.1 | 646.6 | 777.9 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy mewn £ miliynau[3] | 73.6 | 76.1 | 68 | 69.1 | 116.7 | 165.3m |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau | 11.2% | 11.4% | 9.8% | 9.7% | 15.6% | 21.2% |
| Cymharu â chynghorau eraill Cymru | 17eg | 16eg | 18fed | 18fed | 18fed | Ddim ar gael eto |

22 Roedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf yn cynnwys defnyddio £0.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn bob blwyddyn i helpu i fantoli'r gyllideb. Mae'r Cyngor wedi cynnal balans cronfa'r Cyngor ar £14.25 miliwn. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i'r Cyngor alw ar ei gronfeydd wrth gefn i raddau mwy helaeth nag a gynlluniwyd ganddo'n wreiddiol os na fydd yn gallu mynd i'r afael â'r bylchau yn ei gyllideb a ragamcanwyd ganddo.

23 Fel y dengys **Arddangosyn 1**, roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor fel canran o gost net gwasanaethau'n un o'r lleiaf o'i gymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Er bod y Cyngor wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n deall nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ddatrysiad cynaliadwy i reoli bylchau yn y gyllideb dros y tymor hwy.

[1] Ffynhonnell: 2016-17–2020-21: Offeryn data cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru 2021-22: Cyfrifon drafft y Cyngor.

[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, namyn unrhyw gostau gwasanaethau a briodolir i'r Cyfrif Refeniw Tai, a hefyd praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[3] Defnyddiwn y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall.

### Cyflawni arbedion

24 Mae gan y Cyngor hanes cymysg o gyflawni ei arbedion wedi'u targedu. Yn 2020-21, cyflawnodd 52% o'r arbedion yr oedd yn bwriadu eu cyflawni, yn rhannol oherwydd y pandemig. Fe wellodd y sefyllfa yn 2021-22. Fe gyflawnodd y Cyngor ychydig yn llai na 90% o'r arbedion yr oedd yn bwriadu eu cyflawni ar gyfer 2021-22 a 65% o'r arbedion o 2020-21 a gariodd ymlaen. Mae llawer o'r arbedion hynny a oedd heb eu cyflawni'n dal i ymwneud â chreu incwm ac effaith y pandemig.

25 Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i adnabod arbedion posibl yn gynharach ac i ddadansoddi eu cadernid a'r gallu i'w cyflawni. Yn awr ceir mwy o oruchwyliaeth a her gorfforaethol mewn perthynas â'r arbedion wedi'u cynllunio.

26 Ym mis Gorffennaf, fe amcangyfrifodd y Cyngor y bydd angen iddo ddod o hyd i arbedion o £69 miliwn dros bedair blynedd y CATC. Roedd hyn cyn iddo ddiweddaru'r sefyllfa yr oedd yn ei rhagweld ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni oddeutu 95% o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi pennu targed cychwynnol i wneud arbedion pellach yn ystod y flwyddyn o oddeutu £6 miliwn. Diben hyn yw gwrthbwyso'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2022-23.

27 Mae'r Cyngor wedi gosod targed effeithlonrwydd cam cyntaf o £8.5 miliwn ar ei gyfer ei hun yn 2023-24, gyda chamau pellach o arbedion yn debygol. Mae Aelodau i fod i ystyried yr opsiynau arbedion arfaethedig ar gyfer cam 1 yn ystod yr hydref. Bydd cyflawni'r arbedion hyn yn hollbwysig i'w helpu i fynd i'r afael â'r bylchau yn ei gyllideb.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi trefniadau ar waith i ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

28 Fe gynhaliom ni adolygiad lefel uchel o'r trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Roedd ein gwaith yn cynnwys trafodaethau gyda swyddogion ac adolygu dogfennau'n barhaus trwy gydol y flwyddyn archwilio.

29 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu perfformiad yn gyson ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad trwy hunanasesiad. Rhaid i gynghorau gyhoeddi hunanasesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

30 Fe gyflwynodd y Cyngor ei drefniadau i hunanasesu cynnydd yn erbyn ei Amcanion Llesiant yn 2020-21 ac fe wnaeth eu hintegreiddio o fewn fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Yr hunanasesiad oedd y sail i Adroddiad Llesiant Caerdydd 2020-21 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Roedd y broses glirio'n cynnwys ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Polisi, Adnoddau a Pherfformiad a'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi ei ail adroddiad hunanasesu ym mis Hydref 2022.

31 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ymgynghori o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ag undebau llafur, busnesau yn yr ardal leol, trigolion a staff y Cyngor ynghylch y cwestiwn i ba raddau y mae'n ateb ei ofynion o ran perfformiad. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu ei strategaeth gyfranogi gan ddechrau ag adolygiad sylfaenol mewnol o gryfderau a gwendidau. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith anffurfiol/cyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid o grwpiau lle mae cyfraddau ymateb/ymgysylltu'n gyson yn isel. Er enghraifft, cymunedau mwy amddifadus, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, i ddeall y rhwystrau fel y maent hwy'n eu gweld ac i helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn amcanu at gyhoeddi strategaeth gyfranogi ddrafft ar gyfer ymgynghori yn yr hydref a'i chwblhau yn gynnar yn 2023.

32 Mae'r Cyngor wedi diweddaru cylch gorchwyl ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys ei gylch gwaith newydd. Roedd traean o aelodaeth Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor eisoes yn aelodau lleyg cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael hyfforddiant rhagarweiniol ar eu rôl. Rydym wedi gweld bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n mynd i'r afael â'i rôl o ran cwynion a gwerthuso perfformiad.

33 Nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar raddfa amser eto ar gyfer pryd y bydd yn comisiynu Asesiad Panel.

# Cynllun lleihau carbon

## Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei gynllun lleihau carbon Caerdydd Un Blaned, nid yw'n gwybod a yw ei gynllun yn fforddiadwy

**Mae gwaith cydweithredol a threfniadau llywodraethu i gyflawni'r cynllun ar adeg gynnar yn eu datblygiad. Nid yw'n glir sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei chymhwyso wrth ddatblygu'r cynllun**

### Cyd-destun

34 Ym mis Gorffennaf 2022, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn bwrw golwg ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad ansicrwydd y byddai'r uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei wireddu.

35 Canfu ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymdrin â hwy ar y cyd i wireddu'r uchelgais ar y cyd. Canfuom, er eu bod yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, bod rhaid i gyrff cyhoeddus fynd ati yn awr i gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gwneud datgarboneiddio'n ganolog i'w gweithrediadau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd.

36 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn galw ar gyrff cyhoeddus i weithredu yn y pum maes canlynol:

- Cryfhau arweinyddiaeth a dangos cydgyfrifoldeb trwy gydweithio effeithiol
- Egluro cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y broses o roi camau gweithredu ar waith
- Mynd i'r afael â'r cyllid y mae ei angen
- Gwybod beth yw eich bylchau o ran sgiliau a chynyddu capasiti
- Gwella ansawdd data a threfniadau monitro data i ategu prosesau penderfynu

37 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yn perthyn o fewn cyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am fwy o gyflymder ac arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru i leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

38 Fe gynhaliom ni asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Fe gasglom ni dystiolaeth trwy gyfweliadau, adolygiadau o ddogfennau a'r Alwad am Dystiolaeth a ddychwelwyd gan y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Sylfaenol o Ddatgarboneiddio.

## Yr hyn a ganfuom

39 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei gynllun lleihau carbon, Caerdydd Un Blaned (y cynllun) sy'n nodi cyfeiriad strategol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cyfrifo ôl troed carbon sylfaenol. Mae wedi disgrifio'r risgiau a chyfleoedd tymor byr, canolig a hir yn ei gynllun. Mae hefyd wedi categoreiddio'i gamau gweithredu'n rhai tymor byr, canolig a hir i gydnabod nad yw wedi dod o hyd i ddatrysiadau i'r holl faterion eto. Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu i gyflawni'r strategaeth a bydd yn adrodd yn erbyn hwnnw'n flynyddol.

40 Mae'r cynllun yn nodi'n glir beth yw ei uchelgais i leihau allyriadau carbon y Cyngor. Nid yw'r cynllun yn dangos yn glir sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei chymhwyso a sut y mae'r cynllun yn cysylltu â'r nodau llesiant cenedlaethol. Nid yw'n glir, felly, sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei chymhwyso i ddatblygiad y cynllun.

41 Fe wnaeth y Cyngor gynnwys ystod o bobl a phartneriaid yn ei broses ymgynghori tri mis ar y cynllun. Yn ogystal â holiadur ar-lein ac ystod o arolygon, fe ymgysylltodd y Cyngor â grwpiau cymunedol, busnesau, y Panel Dinasyddion a'r

Cyngor Ieuenctid. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen iddo ddatblygu ei ddull o gynnal holl amrywiaeth y boblogaeth ymhellach wrth i'r cynllun a'r broses o'i gyflawni symud yn eu blaenau.

42 Mae'r Cyngor wedi datblygu Offeryn Gwerthuso Effaith Carbon. Mae'n bwriadu defnyddio'r offeryn i adolygu a blaenoriaethu'r prosiectau byrdymor sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Mae hefyd yn bwriadu defnyddio'r offeryn i ddatblygu methodolegau a fydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried effaith gymdeithasol ei brosiectau, yn ogystal â'r effaith ar allyriadau carbon. Ar hyn o bryd, mae'r dangosyddion ar gyfer effaith gymdeithasol yn llai datblygedig na'r rhai sy'n bwrw golwg ar allyriadau carbon. Ond mae'n beth cadarnhaol bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ceisio ystyried effaith ansoddol y cynllun.

43 Trwy ei ymwneud â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau i'w alluogi i adnabod prosiectau cydweithredol. Mae cyfle i'r Cyngor benderfynu a disgrifio sut y bydd cyflawni'r cynllun yn effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill.

44 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu i ganlyn arni â'i gynlluniau o fewn y Cyngor a chyda'i bartneriaid. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn ar adeg gynnar yn eu datblygiad, ac mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Argyfwng yr Hinsawdd trwy'r BGC. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner y BGC, darparwyr cyfleustodau a Phrifysgol Caerdydd. Mae Bwrdd Argyfwng yr Hinsawdd wedi adnabod pedwar maes lle byddai o fudd gweithio mewn partneriaeth ac mae wedi sefydlu is-grŵp i ganlyn arni â gwaith ym mhob maes. O fewn y Cyngor, mae pob cyfarwyddiaeth wedi adnabod swyddog prosiect allweddol i fynychu cyfarfodydd grŵp llywio misol, lle trafodir cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae hyn yn ychwanegol at drefniadau rheoli prosiect ar gyfer pob prosiect yn y cynllun gweithredu.

45 Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw'n gwybod faint fydd yn ei gostio i gyflawni'r cynllun yn ei gyfanrwydd. O ystyried ei sefyllfa ariannol sy'n gryn her, mae'n bwysig ei fod yn adnabod y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei gynllun.

## Argymhelliad

**Arddangosyn 2: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhelliad yr ydym wedi'i nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Cyngor bennu'r goblygiadau o ran adnoddau a chostau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei strategaeth Carbon Sero Net 2030, 'Caerdydd Un Blaned'. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.